

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Cox and Hitchcock Dental Group,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro

Dyddiad arolygu: 20 Awst 2018

Dyddiad cyhoeddi: 21 Tachwedd
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	25
4.	Beth nesaf?	29
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	31
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	32
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	33
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	Error! Bookmark not defined.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cox and Hitchcock Dental Group, 9 Rhyd-Y-Pennau Road, Caerdydd, CF23 6PX, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 20 Awst 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC a dau adolygwr sy'n gymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod practis Caerdydd Cox and Hitchcock Group yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion yn glir ac roedd polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Gwnaethom nodi fod y practis yn lân ac yn daclus a gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod yr offer deintyddol mewn cyflwr priodol ac yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda ac roedd y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r practis, y cleifion a'r staff. Ar adeg yr arolygiad, roedd nifer o aelodau o'r staff nad oedd ganddynt yr hyfforddiant perthnasol, ond ac eithrio'r hyfforddiant radioleg, roedd hynny wedi'i unioni erbyn adeg drafftio'r adroddiad hwn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd tystiolaeth o linellau cyfrifoldeb clir a gweithdrefnau rheoli ac arwain cadarn gan berchennog a rheolwr y practis.
- Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel
- Roedd gan y practis amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis sicrhau bod cyfrifiaduron y ddeintyddfeydd wedi'u cloi pan fo'r deintyddfeydd yn wag er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion.
- Dylai'r practis roi proses ar waith i wneud yn siŵr bod yr holl feddyginiaeth nad yw'n feddyginiaeth frys o fewn ei ddyddiad defnyddio.
- Dylai'r practis ddatblygu taflen wybodaeth i gleifion sy'n amlinellu risgiau a buddiannau, ac yn disgrifio triniaeth a sgil-ffeithiau cael triniaeth laser llawfeddygol.
- Dylid cynnal cofnodion cleifion yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a Chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Cox and Hitchcock Dental Group yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd ar ddeg, wyth nyrs ddeintyddol, tair nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, tri hylendydd, un rheolwr cyffredinol, un rheolwr practis a phump aelod o staff derbynfa.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Mae gan y practis laser llawfeddygol hefyd, ac mae wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol:

- Meinwe galed
- Meinwe feddal gan gynnwys meinwe fywyn
- Periodontol

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (Ile'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym bod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dywedodd pawb a gwblhaodd yr holiadur fod y gwasanaeth yn rhagorol, yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom fod y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt, a'u bod yn cael eu cynnwys, cymaint ag yr hoffent, mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth.

Mae gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan gleifion drwy wahodd y cleifion i lenwi ffurflen adborth neu arolwg.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn y practis. Cwblhawyd cyfanswm o 26 ohonynt. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd. Ymhlith sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

"Mae'r staff bob amser yn gwrtais ac yn barod eu cymwynas"

"Cefais broblemau yn ceisio cael apwyntiadau ar adeg a oedd yn gyfleus i'm teulu, y tu allan i oriau ysgol"

"Nid wyf wedi bod gyda'r practis yn hir, ond rwyf wedi gweld y deintydd ddwywaith nawr. Rwy'n hoffi'r ffaith fy mod i'n gallu gweld yr un deintydd, a all dawelu fy meddwl a thrafod fy nhriniaeth fel nad oes unrhyw beth annisgwyl yn codi."

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; ymysg sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

"Mae angen bod mwy o opsiynau ar gael ar gyfer apwyntiadau y tu allan i oriau ysgol."

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom ddetholiad cyfyngedig o wybodaeth am driniaethau preifat yn yr ardal aros ar y llawr gwaelod. Roedd detholiad ehangach o wybodaeth am driniaethau preifat a chyngor iechyd y geg ar gael yn yr ardal aros ar y llawr cyntaf. Rydym yn argymhell bod gwybodaeth hyrwyddo iechyd ychwanegol, gan gynnwys gwybodaeth am driniaethau a chyngor ataliol, ar gael yn y ddwy ardal aros.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod detholiad o wybodaeth hybu iechyd, gan gynnwys taflenni ar driniaethau a chyngor ataliol, ar gael i gleifion.

Gofal gydag urddas

Yn ddieithriad, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Gwelsom y staff yn trin y cleifion yn gwrtais a phroffesiynol.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio ardal dawel neu ddeintyddfa rydd, pe bai un ar gael. Nodwyd gennym bod gan y practis bolisi cyfrinachedd.

Roedd gwybodaeth mewn llawysgrifen neu wybodaeth electronig am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif wedi'i diogelu. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad oedd y cyfrifiaduron yn un o'r tair deintyddfa wedi'u cloi, a gallem weld gwybodaeth am gleifion. Argymhellwn y dylai pob aelod o'r staff sicrhau y caiff cyfrifiaduron eu cloi cyn gadael deintyddfa'n wag, er mwyn sicrhau na ellir gweld gwybodaeth am gleifion. Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi rheoli cofnodion a pholisi diogelu data.

Roedd gan y practis bolisiâu priodol hefyd i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Nodwyd gennym bod y 9 Egwyddor a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹ wedi'u harddangos yn ystafell y staff. Mae'r egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol. Rydym yn awgrymu y dylai'r practis arddangos y rhain yn y dderbynfa a/neu'r ardaloedd aros.

Yr hyn sydd angen ei wella

Staff i sicrhau bod pob cyfrifiadur yn cael ei gloi fel na ellir gweld gwybodaeth am glaf heb awdurdod

Gwybodaeth i gleifion

Dyweddodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y triniaethau sydd ar gael a dywedodd pob claf ond un fod cost y driniaeth bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Ar gyfer cleifion a gaiff laser llawfeddygol, nodwyd nad oedd unrhyw wybodaeth ysgrifenedig am y risgiau posibl, buddiannau na sgil-ffeithiau. Argymhellwn y dylai'r practis ddarparu taflen wybodaeth i gleifion sy'n nodi risgiau a buddiannau, ac yn disgrifio triniaeth a sgil-ffeithiau. Nodwyd gennym nad oedd ffurflen gydsyniad i gleifion ar wahân ar gyfer triniaeth laser, ac rydym yn argymhell bod hyn yn cael ei unioni. Rydym yn awgrymu y dylid cyfuno'r ddwy ffurflen.

Gwelsom bosteri yn dangos costau triniaeth breifat a chostau triniaethau'r GIG wedi'u harddangos yn ardal y dderbynfa.

Y tu allan i'r practis, gwelsom fod oriau agor y practis a'r rhif ffôn mewn argyfwng yn cael eu harddangos, a bod enwau a chymwysterau'r deintyddion i gyd ar y ffenestr wrth ymyl y drws ffrynt.

¹<https://standards.gdc-uk.org/>

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i ddarparu taflen wybodaeth i gleifion sy'n amlinellu risgiau a buddiannau, ac yn disgrifio triniaeth a sgil-effeithiau cael triniaeth laser llawfeddygol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Mae gan y practis wefan, a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn cynnwys manylion y triniaethau deintyddol preifat y mae'n eu rhoi, ynghyd â rhestr brisiau. Mae hefyd yn rhoi manylion tîm y practis, yr oriau agor a sut i gael gafael ar driniaeth ddeintyddol frys. Dywedodd y staff wrthym yn ystod yr arolygiad fod y wefan yn cael ei diweddarau i ganiatáu i gleifion wneud apwyntiadau yn electronig. Rydym yn argymhell bod y wefan yn cael ei diweddarau i gynnwys manylion am y weithdrefn gwyno.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r wefan gael ei diweddarau i gynnwys proses gwynion y practis.

Gofal amserol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Dywedodd un o'r rhai a ymatebodd ei fod yn ei chael hi'n anodd cael apwyntiad y tu allan i oriau ysgol. Dim ond nifer fach o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur a ddywedodd y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd gwybodaeth am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'i harddangos wrth fynedfa'r practis ac ar y wefan ac yn cael ei rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Mae'r practis yn rhoi triniaethau fel y nodir yn ei Ddatganiad o Ddiben².

Dangosodd adolygiad o gofnodion deintyddol y cleifion fod cleifion yn cael eu holi ynghylch eu hanes meddygol pan fyddant yn ymweld â'r practis. Ni ddangosodd adolygiad o gofnodion cleifion yn ymwneud a thriniaeth a gafwyd gan ddefnyddio laser llawfeddygol fod unrhyw gwestiwn yn cael ei ofyn i gleifion am newid i'w hanes meddygol. Argymhellwn fod y gweithredwr laser yn cofnodi bod y cwestiynau wedi'u gofyn i'r claf a bod unrhyw newidiadau wedi'u cofnodi yn ôl yr angen.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn gofyn iddynt am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i sicrhau bod cleifion sy'n cael triniaeth laser yn cael eu holi am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol a bod hyn yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r claf

Hawliau pobl

Roedd llawr gwaelod y practis yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ac roedd hyn yn cynnwys mynediad at 4 deintyddfa. Roedd y toiled i gleifion ar y llawr gwaelod ac yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Roedd lle parcio anabl hefyd ar y safle a llethr yn arwain at y brif fynedfa.

Roedd gan y practis bolisiâu priodol ar waith i ddiogelu hawliau pobl, gan gynnwys polisi cydraddoldeb.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Pan fo'n berthnasol, roedd y polisi'n gyson â

² Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

phroses gwynion y GIG "Gweithio i Wella"³, ac o ran triniaeth ddeintyddol breifat, roedd yn gyson â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017⁴. Roedd y polisi'n cael ei arddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y dderbynfa.

Er bod gan y practis system ar waith i gasglu cwynion ffurfiol, nid oedd yn gynhwysfawr ac rydym yn argymhell ei fod yn cadw ffolder cwynion, gan sicrhau bod natur y gŵyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad yn cael eu cofnodi.

Roedd gan y practis system ar waith i gofnodi pryderon llafar/anffurfiol a chaiff y rhain eu hadolygu a chaiff unrhyw themâu cyson eu trafod yn ystod y cyfarfodydd staff anghlinigol, a'u bwydo yn ôl i'r cyfarfodydd staff clinigol er gwybodaeth a/neu er gweithredu yn ôl yr angen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i gadw ffolder cwynion, gan sicrhau bod natur y gŵyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad wedi'u cofnodi

³ "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru

⁴<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/202/made/welsh>

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn ddigonol ac roedd trefniadau ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, ac roedd dystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y laser llawfeddygol yn cael ei wasanaethu a'i galibradu. Gofynnwyd i'r practis gadarnhau dyddiad arolygiad diwethaf y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a darparu copi o adroddiad y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Mae angen i'r practis roi system ar waith ar gyfer adolygu dyddiadau 'defnyddio erbyn' ei feddyginiaeth nad yw'n feddyginiaeth frys.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Nodwyd gennym fod nifer o bolisiau perthnasol ar waith, gan gynnwys polisi cynnal a chadw a diogelwch cyfleusterau a pholisi iechyd a diogelwch a oedd yn nodi aelodau o'r staff a oedd yn gyfrifol am feysydd penodol, gan gynnwys rheoli heintiau a diogelu rhag ymbelydredd. Roedd poster iechyd a diogelwch yn yr ystafell staff. Mae'r practis yn cynnal asesiad iechyd a diogelwch bob blwyddyn ac asesiad risg tân bob tair i bum mlynedd. Cynhaliwyd asesiad risg amgylcheddol yn gynharach eleni.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob claf a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn neu'n gymharol lân'. Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn

cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom nodi bod mân ddifrod i'r llawr yn neintyddfa 1, ac argymhellwn fod hyn yn cael ei unioni. Gwelsom fod yr holl ardaloedd y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt yn lân ac yn daclus.

Nodwyd gennym bod dyfeisiau cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel yn y practis. Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y deuddeg mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer a'r goleuadau argyfwng yn gweithio'n briodol. Roedd arwyddion priodol yn dangos ble roedd yr allanfeydd tân.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus, gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus a gwastraff amalgam yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel. Mewn ymateb i'n cyngor i adolygu'r ffordd y caiff gwastraff amalgam ei storio, erbyn diwedd yr adolygiad roedd y practis wedi trefnu i roi cyfleuster penodol ar gyfer gwastraff amalgam ym mhob deintyddfa.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio rheolaethau 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' (COSHH) a thafleini data diogelwch perthnasol a oedd yn rhoi gwybodaeth am sylweddau sy'n 'beryglus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel.

Roedd gan y practis bolisi adrodd ar ddamweiniau a ffeil adrodd ar ddamweiniau a digwyddiadau. Nodwyd gennym hefyd fod gan y practis bolisi dadebru a pholisi parhad busnes ar waith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i drwsio'r difrod i'r llawr yn neintyddfa 1

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁵. Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith.

Gwelsom dystiolaeth fod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw ac roedd polisi rheoli heintiau ac offer miniog ar waith. Roedd cynllun gweithredu ar gyfer anafiadau gan offer miniog wedi'i arddangos ar y wal ym mhob deintyddfa ac roedd y manylion cyswllt perthnasol ar gyfer iechyd galwedigaethol wedi'u harddangos yn yr ystafell staff.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi trefnu hyfforddiant rheoli ac atal heintiau ar gyfer wythnos yr arolygiad. Yn dilyn yr arolygiad, darparwyd tystiolaeth i AGIC yn cadarnhau ei fod wedi'i gwblhau.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05. Roedd aelodau o'r staff anghlinigol wedi cynnal yr archwiliad diwethaf a byddem yn cynghori bod yr archwiliadau'n cael eu cynnal gan y swyddog arweiniol dihalogi yn y dyfodol.

Dywedwyd wrthym nad yw'r peiriant golchi a diheintio yn yr ystafell ddihalogi yn cael ei ddefnyddio mwyach. Rydym yn argymhell y dylid cael gwared ag ef.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys polisi argyfwng meddygol cynhwysfawr. Roedd pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis naw swyddog cymorth cyntaf penodedig.

⁵ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd gan y staff y cyffuriau argyfwng a'r offer dadebru brys yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁶. Nodwyd gennym fod system ar waith yn y practis ar gyfer sicrhau bod cyffuriau ac offer argyfwng yn barod i'w defnyddio.

Wrth edrych ar becyn cymorth cyntaf y practis, gwelsom ei fod yn cynnwys digonedd o rwymynnau trionglog ond ychydig iawn o blasteri. Argymhellwn fod y cynnwys yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod nifer briodol o bob eitem ar gael.

Wrth adolygu'r deintyddfeydd, nodwyd gennym fod rhai o'r capsïwlau anesthetig wedi mynd heibio'u dyddiad defnyddio a gwaredwyd y rhain cyn diwedd yr arolygiad. Nodwyd gennym hefyd nad oedd dyddiad defnyddio erbyn ar rai o'r capsïwlau cyfansawdd a bod angen cael gwared â'r rhain. Argymhellwn gynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl feddyginiaeth o fewn ei dyddiad defnyddio. Hefyd, argymhellwn gadw cofnodlyfr at y diben hwn a'i fod yn cael ei adolygu gan reolwr y practis.

Roedd gan y practis bolisi meddyginiaeth ar waith. Ar adeg yr arolygiad, yn neintyddfeydd 2 a 3, roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw mewn dreiriau heb eu cloi. Rydym yn argymhell bod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaeth nyrs glinigol baratoi deintyddfa cyn amser cinio. Roedd hyn yn rhy gynnar, gan fod y pwti deintyddol wedi'i adael ar agor. Argymhellwn fod pob deintyddfa yn cael ei pharatoi ar gyfer pob claf ar adeg briodol er mwyn sicrhau nad yw'r feddyginiaeth a'r offer yn cael eu hamlygu i unrhyw risg o heintio yn ddiangen.

Dwedwyd wrthym fod yr holl ddigwyddiadau niweidiol yn ymwneud â chyffuriau yn cael eu cofnodi yn llyfr damweiniau'r practis ac yng nghofnodion y cleifion. Argymhellwn fod y practis yn rhoi gwybod am broblemau a gafwyd â meddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol drwy gynllun Cerdyn Melyn MHRA⁷.

⁶ Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

⁷ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i adolygu cynnwys ei becyn cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod nifer ddigonol o bob eitem ar gael.

Y practis i sicrhau bod ei feddyginiaeth nad yw'n feddyginiaeth frys yn cael ei harchwilio'n rheolaidd, a bod hynny'n cael ei gofnodi mewn cofnodlyfr, er mwyn sicrhau ei bod o fewn ei dyddiad defnyddio.

Y practis i sicrhau bod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser.

Y practis i sicrhau bod y deintyddfeydd yn cael eu paratoi ar gyfer pob claf ar adeg briodol er mwyn sicrhau nad yw'r feddyginiaeth a'r offer yn cael eu hamlygu i unrhyw risg o heintio yn ddiangen.

Y practis roi gwybod i'r MHRA am unrhyw adweithiau andwyol i gyffuriau drwy ei Gynllun Cerdyn Melyn.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol. Ar adeg yr arolygiad, ac eithrio un nyrs ddeintyddol a staff y dderbynfa, roedd y mwyafrif o aelodau'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed. Cyn i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau, rhoddwyd tystiolaeth i AGIC yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Yn ogystal, fel swyddog arweiniol diogelu'r practis, gwnaeth rheolwr y practis, cyn i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau, gwblhau hyfforddiant diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed hyd at lefel 3.

Roedd trefniadau ar waith i'r staff godi unrhyw bryderon, a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu hannog i wneud hynny yn y practis. Rydym yn cynghori bod y practis yn cydgysylltu ag adran iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd ynghylch y gwasanaethau llesiant a chymorth mae'n eu darparu.

Nodwyd gennym fod siartiau llif cyngor diogelu wedi'u harddangos yn yr ystafell staff ac wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r polisi diogelu, a oedd hefyd yn cynnwys canllawiau ategol a'r wybodaeth gyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu lleol.

Ac eithrio un nyrs ddeintyddol, roedd gan y staff clinigol ac anghlinigol dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod offer priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr offer radiolegol mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal, yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol. Gwnaethom nodi ar ddiwrnod yr arolygiad nad oedd y rheolau lleol⁸ wedi'u harddangos yn y deintyddfeydd. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn a chafodd y sefyllfa ei hunioni erbyn diwedd y dydd.

Yn unol â'r rheoliadau, roedd gan y practis bolisi cynnal a chadw a diogelwch cyfleusterau a oedd yn cynnwys profi offer, cynnal asesiadau risg priodol a rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁹ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)¹⁰ 2000, roedd pob deintydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Argymhellwn fod pob nyrs ddeintyddol yn cael hyfforddiant ymbelydredd sy'n briodol i'w rôl.

⁸Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

⁹ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

¹⁰ http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Gwelsom dystiolaeth fod y peiriant laser wedi'i galibradu¹¹ a'i wasanaethu'n rheolaidd yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Dywedwyd wrthym y byddai'r gweithredwr yn cynnal gwiriadau cyfarpar fel mater o drefn cyn ei ddefnyddio bob tro. Gwelsom fod rhestr wirio at y diben hwn ar wal yr ystafell driniaeth.

Nid oedd protocol triniaeth ar waith ar gyfer y peiriant laser. Rydym yn argymhell y dylai hyn gael ei unioni yn unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat sy'n pennu bod yn rhaid bod gan y practis brotocol proffesiynol sy'n gymwys i'r triniaethau a ddarperir, wedi'i lunio gan ddeintydd neu weithiwr deintyddol proffesiynol profiadol, wedi'i hyfforddi.

Gwelsom fod contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau penodol. Nid oedd yn glir a oedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi ymweld â'r practis yn 2016. Gwelsom adroddiad asesiad risg ond ni welsom adroddiad y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Argymhellwn fod yr adroddiad hwn yn cael ei anfon at AGIC.

Gwelsom y rheolau lleol mewn cysylltiad â'r laser, yn rhoi manylion am weithredu'r peiriant yn ddiogel, ond gwnaethom nodi nad oeddent wedi'u diweddarau i nodi mai dim ond un laser llawfeddygol sydd ar y safle erbyn hyn. Mae angen i'r ddogfen hefyd gael ei llofnodi gan bob gweithredwr.

Archwiliwyd y sbectol amddiffynnol y mae'n rhaid i'r gweithredwr a'r claf eu gwisgo pan fo'r laser yn cael ei ddefnyddio a nodwyd eu bod mewn cyflwr da.

Roedd y laser llawfeddygol mewn deintyddfa ar y llawr gwaelod. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd yr allwedd yn y peiriant. Ni ddylai'r allwedd fyth gael ei gadael gyda'r cyfarpar heb ei goruchwylio, a dylai trefniadau ffurfiol gael eu rhoi ar waith i'w chadw'n ddiogel ar wahân i'r cyfarpar, ac rydym yn argymhell y dylid rhoi trefniadau ar waith i'r allwedd gael ei chadw'n ddiogel.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth fod pob un gweithredwr awdurdodedig ond un wedi cael hyfforddiant Craidd Gwybodaeth¹² cyfredol.

¹¹ Gall calibradu rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn parhau'n gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad gorau ac allbwn o'r ansawdd uchaf.

¹² Anelir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth at weithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau IPL ar gyfer amrywiol driniaethau croen. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar sut i ddefnyddio laserau a systemau IPL yn ddiogel.

Darparwyd y dystysgrif cyn i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau. Yn ogystal, gwelsom dystiolaeth fod y gweithredwyr wedi cael hyfforddiant cyfredol yn benodol ar gyfer peiriant.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i sicrhau bod pob nyrs ddeintyddol yn cael hyfforddiant ymbelydredd sy'n briodol i'w rôl.

Y practis i roi protocol triniaeth ar waith ar gyfer y triniaethau a ddarperir gan ddefnyddio'r laser llawfeddygol.

Y practis i gadarnhau dyddiad ymweliad diwethaf y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau â'r practis, ac anfon ei adroddiad diwethaf at AGIC.

Y rheolau lleol i gael eu diweddarau, a phob un o weithredwr y laser i'w darlle a'u llofnodi.

Y practis i sicrhau bod allwedd y cyfarpar yn cael ei chadw'n ddiogel bob amser.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae'r practis yn ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo'n barhaus er budd y cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod rhaglen o archwiliadau clinigol ar waith yn y practis. Roedd y rhaglen yn cynnwys archwiliadau radiograffeg, archwiliadau rheoli heintiau ac archwiliadau nodiadau clinigol. Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith ar gyfer cynnal archwiliad rhagnodi gwrthfotigau ac archwiliad rhoi'r gorau i smygu.

Nodwyd gennym fod gweithdrefn claf newydd a pholisi asesu, dioagnosio a thrin cleifion ar waith yn y practis.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym fod y deintyddion yn cyfarfod yn chwarterol i drafod materion clinigol materion y practis, ond nid oedd y cyfarfodydd hyn at

ddibenion adolygu gan gymheiriaid ac rydym yn argymhell bod rhaglen ffurfiol o adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu rhoi ar waith. Rydym hefyd yn argymhell fod trefniant tebyg yn cael ei wneud ar gyfer y nyrsys deintyddol.

Dywedwyd wrthym fod y practis newydd ymrwymo i ymgymryd ag adnodd datblygu practisau 'Maturity Matrix Dentistry' Deoniaeth Cymru¹³. Mae'r 'Maturity Matrix Tool' yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut y mae'n gweithio

Yr hyn sydd angen ei wella

Y deintyddion i drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddibenion adolygu cymheiriaid.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gofnodion electronig a chofnodion ar bapur, a nodwyd gennym fod y rhain yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn yn cael eu creu o ffeiliau electronig.

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom mewn rhai achosion fod hepgoriadau, ac yn benodol nad oedd unrhyw gofnod o'r canlynol:

- Cyngor ar roi'r gorau i smygu
- Roedd cofnod yn cael ei wneud pan fo anesthetig yn cael ei roi ond ni nodwyd y rhif swp a'r ardal a oedd yn cael ei thrin
- Trafod opsiynau triniaeth

¹³<https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

Yn ogystal, gwelsom mewn rhai achosion nad oedd unrhyw gyfiawnhad yn cael ei roi dros ddefnyddio a graddio profion pelydr-X, ac nid oedd hyn yn gydnaws â chanllawiau cyfredol.

Argymhellwn y dylid cwblhau nodiadau cleifion yn unol â'r canllawiau cyfredol. Gwelsom fod rhai o'r deintyddion wedi "personoli" eu meddalwedd cofnodion cleifion ac rydym yn awgrymu, at ddibenion cysondeb, fod y cofnodion electronig yn cael eu "safoni" ar draws y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau yn ystod ymweliad pob claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a roddwyd a gwybodaeth berthnasol am luniau pelydr-X.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Mae dau brif ddeintydd yn berchen ar Cox and Hitchcock Group, wedi'u cefnogi gan reolwr cyffredinol/adnoddau dynol a oedd yn goruchwylio tri phractis, a rheolwr practis a oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis, a oedd yn cael eu hadolygu'n flynyddol a gwnaethom nodi fod lle i'r staff ddangos eu bod wedi eu darllen a'u bod wedi eu deall.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yr aelodau o'r staff wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae dau brif ddeintydd wedi bod yn berchen ar Cox and Hitchcock Dental Group ers mis Tachwedd 2017. Mae hwn yn un o dri phractis, ac mae'r ddau arall yng Nghasnewydd. Un o'r prif ddeintyddion yw'r unigolyn cyfrifol¹⁴ a'r rheolwr cyffredinol/adnoddau dynol yw'r rheolwr cofrestredig¹⁵. Rheolwr y

¹⁴ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli

¹⁵ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

practis sy'n gyfrifol am ei reoli o ddydd i ddydd. Gwelsom fod trefniadau arwain da ar waith yn y practis a bod pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y staff wedi llofnodi'r rhain i ddangos eu bod wedi cael eu darllen a'u bod wedi eu deall.

Roedd y Datganiad o Ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, ond roedd angen diwygio gwybodaeth yn ymwneud â'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig er mwyn nodi gwybodaeth y practis yn hytrach na gwybodaeth bersonol. Roedd angen cyfeirio at AGIC yn y polisi cwynion hefyd. Yn ogystal, roedd angen diwygio'r Daflen Gwybodaeth i Gleifion er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys yr un wybodaeth â'r Datganiad o Ddiben.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, sy'n rhaid eu hanfon at AGIC o dan reoliadau 25-29 o'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Nid oedd yr unigolyn cyfrifol yn bresennol ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y Datganiad o Ddiben a'r Daflen Gwybodaeth i Gleifion i gael eu diwygio er mwyn bodloni gofynion y rheoliadau cyfredol

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau adnoddau dynol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi arfarnu a pholisi recriwtio. Roedd y rhain wedi'u llofnodi gan y staff i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u bod wedi eu deall.

Gwelsom dystiolaeth fod gan bob aelod o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael eu cadw yn y ffeiliau staff unigol. Nodwyd gennym hefyd fod gan y practis raglen polisi sefydlu a pholisi hyfforddi staff. Gan fod y staff yn gweithio yn y tair cangen er mwyn sicrhau niferoedd digonol o staff a chefnogi datblygiad y staff, teimlwyd nad oedd angen cynlluniau hyfforddi ar gyfer staff dros dro.

Nodwyd gennym nad oes arfarniadau staff wedi'u cynnal ers 2015. Dywedodd y rheolwr cofrestredig, a oedd wedi ymuno â'r Grŵp yn ddiweddar, fod trefniadau ar waith eisoes i'r rhain gael eu cynnal yn flynyddol. Nodwyd gennym fod gan bob deintydd Gynllun Datblygu Personol.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Aethpwyd i'r afael â'r eithriadau y cyfeiriwyd atynt yn gynharach erbyn i'r adroddiad hwn gael ei ysgrifennu. Nodwyd gennym hefyd bolisi DPP y practis.

Nid yw'r practis hwn yn cynnal cyfarfodydd ar gyfer y practis cyfan. Yn hytrach, mae'n trefnu cyfarfodydd tîm rheolaidd, ar wahân, i'r deintyddion; y nyrsys; a'r staff anghlinigol. Caiff nifer o bynciau eu trafod yn y cyfarfodydd hyn, gan gynnwys hyfforddiant, materion yn ymwneud â'r practis, unrhyw newidiadau i bolisiau ac adborth gan gleifion. Byddai'r rheolwr cyffredinol yn bwydo gwybodaeth berthnasol yn ôl i'r grwpiau eraill a gwelsom gofnodion yn ymwneud â'r cyfarfodydd hyn. Caiff staff na allant fod yn bresennol y wybodaeth ddiweddaraf gan reolwr y practis ar lafar, ar drafodaethau a phwyntiau gweithredu. Dylid rhannu'r cofnodion er mwyn i'r staff eu llofnodi i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u bod yn eu deall. Dywedwyd wrthym fod y practis cyfan yn cyfarfod ar ddiwrnodau hyfforddi ac rydym yn argymhell fod amser yn cael ei neilltuo ar y diwrnodau hynny er mwyn cynnal cyfarfod practis cyfan.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff ac eithrio un nyrs ddeintyddol. Dywedwyd wrthym, yn ogystal â'r dystysgrif DBS, nad oedd yr aelod hwn o'r staff wedi darparu tystiolaeth ei bod wedi cwblhau hyfforddiant yn unol â'i gofynion DPP.

Mae'n ofynnol i staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis

dystiolaeth o statws imiwnedd pob aelod ond un o'r staff clinigol parhaol. Mae angen unioni hyn.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u rhwymedigaethau o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn rhoi tystiolaeth i AGIC fod tystysgrif gyfredol ar gael o ran un nyrs ddeintyddol

Y practis i ddarparu prawf o imiwnedd rhag Hepatitis B i AGIC, o ran un nyrs ddeintyddol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw faterion roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Cox and Hitchcock Dental Group

Dyddiad arolygu: 20 Awst 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Tudalen 33 o 40

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cox and Hitchcock Dental Group

Dyddiad arolygu: 20 Awst 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'r practis yn darparu detholiad o wybodaeth hybu iechyd, gan gynnwys taflenni am driniaethau a thafenni cyngor ataliol, i'r cleifion.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adrannau 6 ac 8	Cwblhawyd - mae gennym daflenni gan sefydliad iechyd y geg am bydredd dannedd, clefyd y deintgig, hylendid y geg. Mae gennym hefyd daflenni am roi'r gorau i smygu.	Emily Jefferies	Cwblhawyd 08/10/18
Mae'r staff yn sicrhau bod pob cyfrifiadur yn cael ei gloi fel na ellir gweld gwybodaeth am glaf heb awdurdod	4.1 Gofal Gydag Urddas; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017	Cwblhawyd - Cafodd y neges hon ei chyfleu i bob aelod o'r staff gan gynnwys y deintyddion yn ystod cyfarfodydd staff a gynhaliwyd ar 13/09/18	Emily Jefferies	Cwblhawyd 13/09/18

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Adran 13 (9)(c)			
Y practis i ddarparu taflen wybodaeth i gleifion sy'n amlinellu risgiau a buddiannau, ac yn disgrifio triniaeth a sgil-ffeithiau cael triniaeth laser llawfeddygol.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adrannau 6 ac 8	Rydym wedi cynnwys y wybodaeth hon yn ein ffurflen cydsyniad cleifion.	Emily Jefferies	Cwblhawyd 08/10/18
Mae'r wefan wedi ei diweddarau i gynnwys proses gwynion y practis.	Cyfathrebu'n effeithiol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 6(2)	Disgwylir y bydd y wefan newydd yn fyw erbyn 05/01/19	Emily Jefferies	05/01/19
Y practis i sicrhau bod cleifion sy'n cael triniaeth laser yn cael eu holi am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol a bod hyn yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r claf	6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 20 (a)	Cwblhawyd - rydym wedi creu ffurflen benodol, ar ôl iddi gael ei llenwi caiff ei sganio a'i chynnwys yng nghofnodion y claf. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyfleu i bawb sy'n defnyddio'r laser.	Lisa Small LPS	08/10/18

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	(ii)			
Y practis i gadw ffolder cwynion, gan sicrhau bod natur y gŵyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad wedi'u cofnodi	6.3 Gwrando ar adborth a dysgu oddi wrtho, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, Adrannau 6 ac 8	Cwblhawyd - mae cofnodlyfr cwynion ar waith erbyn hyn - y manylion a gofnodir yw enw'r claf, natur y gŵyn, y dyddiad a sut y cafodd ei datrys.	Helen Gardner	Cwblhawyd - 21/08/18
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Y practis i drwsio'r difrod i'r llawr yn neintyddfa 1	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 22	Cwblhawyd - mae'r llawr wedi'i drwsio	Emily Jefferies	Cwblhawyd 21/09/18
Y practis i adolygu cynnwys ei becyn cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod nifer ddigonol o bob eitem ar gael.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau; Rheoliadau Iechyd a Diogelwch	Mae gennym bellach fath llygaid a digon o blasteri ar gyfer nifer y staff rydym yn eu cyflogi.	Emily Jefferies	Cwblhawyd 23/08/18

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	(Cymorth Cyntaf) 1981			
Y practis i sicrhau bod ei feddyginiaeth nad yw'n feddyginiaeth frys yn cael ei harchwilio'n rheolaidd, a bod hynny'n cael ei gofnodi mewn cofnodlyfr, er mwyn sicrhau ei bod o fewn ei dyddiad defnyddio.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 13 (4)	Mae archwiliadau misol bellach yn cael eu cynnal ar gyfer meddyginiaeth nad yw'n feddyginiaeth frys ar yr un pryd â'r archwiliadau o feddyginiaeth frys gan Stephanie Sheehan.	Stephanie Sheehan	Cwblhawyd 21/09/18
Y practis i roi gwybod i'r MHRA am unrhyw adweithiau andwyol i gyffuriau drwy ei Gynllun Cerdyn Melyn	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 13 (4)(e)	Cwblhawyd - mae system gofnodi ar waith erbyn hyn.	Helen Gardner	23/08/18
Y practis i sicrhau bod pob nyrs ddeintyddol yn cael hyfforddiant ymbelydredd sy'n briodol i'w rôl.	Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 17 (3)	Bydd pob nyrs yn cwblhau hyfforddiant ymbelydredd 1 awr ar-lein bob blwyddyn gyda <i>pro dental CPD</i> . Mae'r mwyafrif o'r staff wedi'i gwblhau eisoes.	Emily Jefferies	21/09/18
Y practis i roi protocol triniaeth ar waith ar gyfer	Rheoliadau	Mae protocol triniaeth ar waith ar gyfer	Lisa Small LPS	08/10/18

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
y triniaethau a ddarperir.	Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 32 (1)	defnyddio'r laser erbyn hyn. Mae wedi cael ei weithredu a'i adolygu gan ein Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.		
Y practis i gadarnhau dyddiad ymweliad diwethaf y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau â'r practis, ac anfon ei adroddiad diwethaf at AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 32	Mae tystiolaeth o adroddiad y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau eisoes wedi'i hanfon at Jo Morgan. Cynhaliwyd yr ymweliad - 05/03/18.	Emily Jefferies	22/08/18
Y rheolau lleol i gael eu diweddarau, a phob un o weithredwr y laser i'w darllen a'u llofnodi.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 32	Cafodd y rheolau lleol eu hadolygu gan Mathew Agar (Cynghorydd Diogelu rhag Laserau) yn ystod ei ymweliad diwethaf ar 05/03/18 a'u llofnodi. Nid oes angen eu diweddarau. Mae pob un o ddefnyddwyr y laser wedi darllen y rheolau lleol, a'u llofnodi	Lisa Small LPS	31/08/18
Dylai'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben adolygu cymheiriaid.	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 16	Rhodddwyd ffurflen archwiliadau adolygu gan gymheiriaid i bob deintydd ei llenwi yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13/09/18. Caiff y rhain eu hadolygu ymhen 8-12 wythnos.	Emily Jefferies/Robert Hitchcock.	13/12/18

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau yn ystod ymweliad pob claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a roddwyd a gwybodaeth berthnasol am luniau pelydr-X.	Cadw cofnodion; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 20	Cadw cofnodion yw prif bwnc ein hadolygiad gan gymheiriaid. Trafodwyd pwysigrwydd cadw cofnodion cynhwysfawr yn ystod y cyfarfod ar 13/09/18.	Emily Jefferies/Robert Hitchcock	Caiff archwiliadau cadw cofnodion clinigol eu hadolygu ar 13/12/18
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Y Datganiad o Ddiben a'r Daflen Gwybodaeth i Gleifion i gael eu diwygio er mwyn bodloni gofynion y rheoliadau cyfredol	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adrannau 5 a 7 ac Atodlen 1	Mae'r daflen gwybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben wrthi'n cael eu hailysgrifennu ar hyn o bryd.	Emily Jefferies	20/09/18
Y practis i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn rhoi tystiolaeth i AGIC fod tystysgrif gyfredol ar gael o ran un nyrs ddeintyddol	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 18	Mae'r nyrs ddeintyddol hon wedi gadael y practis erbyn hyn. Mae gan bob aelod presennol o'r staff wiriad DBS. Mae'r polisi recriwtio yn datgan y bydd pob aelod o staff yn cael gwiriad DBS cyn ymuno â'r practis.	Emily Jefferies	20/09/18

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Y practis i ddarparu prawf o imiwnedd rhag Hepatitis B i AGIC, o ran un nyrs ddeintyddol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 18	Mae'r nyrs hon wedi gadael y practis erbyn hyn. Mae pob aelod presennol o'r staff clinigol wedi darparu tystiolaeth o imiwnedd rhag Hepatitis B. Bydd yn rhaid i bob aelod newydd o'r staff clinigol ddarparu tystiolaeth o frechiad Hepatitis B cyn ei ddyddiad dechrau yn unol â'r polisi recriwtio .	Helen Gardner	20/09/18

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Emily Jefferies

Teitl swydd: Rheolwr Clinigol/Adnoddau Dynol

Dyddiad: 08/10/18